

**Tasg 2**

# Eger Hafren

**Dychmygu**

Dychmygwch mai chi yw'r syrffiwyr yn y fideo a'ch bod chi'n ysgrifennu at ffrind am y profiad. Cofiwch ddisgrifio beth rydych chi'n ei weld, ei glywed, ei arogl, ei deimlo a'i flas. Efallai bydd hi'n help i chi edrych ar y fideo fwy nag unwaith er mwyn ceisio dychmygu'n iawn.

- Sut cawsoch chi wybod bod Eger Hafren ar y ffordd?
- Disgrifiwch sut rydych chi'n teimlo wrth fynd i mewn i'r afon i aros i'r Eger gyrraedd.
- Sut rydych chi'n teimlo cyn i'r Eger ddod?
- Sut mae syrffio ar yr Eger? Disgrifiwch y wefr.
- Sut rydych chi'n teimlo wedyn?
- Beth am annog eich ffrind i ddod gyda chi y tro nesaf?